Cofnodion Cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd trwy drefniant hybrid ar **ddydd Mercher, 10 Awst 2022**

Yn bresennol: Y Cynghorydd Rhodri Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Evans, Siân Maehrlein, Geraint Wyn Hughes, Ceris Jones, Chris James, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Carl Worrall a Hugh R M Hughes

Hefyd yn bresennol: Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Yr Economi ac Adfywio, Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – Gogledd, Gwasanaethau; Mrs Patricia Armstrong – Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaeth Cyfreithiol, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau

(10:00am – 11:20am)

1 Ymddiheuriadau
Roedd Y Cynghorydd Mark Strong wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddo fynychu'r cyfarfod.

2 Materion Personol
Dim.

3 Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu
Dim

4 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022
PENDERFYNWYD cadarnhau bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022 yn gywir.

Materion yn codi
Dim.

5 Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor
Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio am y ceisiadau cynllunio canlynol, a ystyriwyd yn ystod cyfarfod blaenorol ac yr oedd gofyn i'r Pwyllgor eu hystyried ymhellach:-

A210363 Adeiladu adeilad amaethyddol er mwyn cadw stoc ifanc (buarth gwellt), Alltgoch, Silian

(Dywedodd Y Cynghorydd Chris James y bu'n bresennol yn ystod y Panel Archwilio Safle, er nad oedd ei enw wedi cael ei gynnwys yn y cofnodion hynny)

CYMERADWYO'R cais yn unol ag amodau.

Roedd yr aelodau o'r farn y byddai modd cymeradwyo'r cais am y rhesymau canlynol:-

- Yn dilyn ymweliad y Panel Archwilio Safle â'r safle, daethpwyd i'r casgliad nad oedd y cais yn cael effaith niweidiol ar y tirlun, felly nad oedd yn mynd yn groes i Bolisi CDLl DM06, DM17 a DM18
- Nodi nad oedd Swyddogion yn gwrthwynebu i'r cam o adeiladu'r sied, dim ond ei lleoliad; a oedd yn unol â barn bersonol y swyddogion
- Cymeradwyo'r cais a fyddai'n lleihau'r traffig yn Llanbedr Pont Steffan

-

---

6 Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch Ceisiadau cynllunio datblygu, hysbysebu; statudol a'r awdurdod lleol:-

Anerchodd Mr Tom Evans (ymgeisydd) y Pwyllgor yn unol â'r ychwanegiad dros dro i'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Reoli Datblygu mewn ymateb i Covid-19

A210982 3 pod glampio,addasiadau i'r mynediad presennol a gosod cyfleuster parod i drin carthion, Pendre, Llanfihangel-y Creuddyn, Aberystwyth

CYFIRIO'R cais i'r Panel Archwilio safle yn unol â phwynt 2,3 a 5 y meini prawf a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Anerchodd Mr Geraint John (Asiant) y Pwyllgor yn unol â'r ychwanegiad dros dro i'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Reoli Datblygu mewn ymateb i Covid-19

A210988 Datblygiad preswyl o 22 annedd ynghyd â ffyrdd mynediad, gwaith tirlunio a lle amwynder cysylltiedig, tir yng Nger y Cwm, Penrhyn-coch, Aberystwyth

CYMERADWYO'R cais yn unol ag amodau cyn cwblhau cytundeb Adran 106 er mwyn darparu tai fforddiadwy a gweithgarwch rheoli a chyflwyno fesul cam yn yr ardal agored.

---

7 Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig

PENDERFYNWYD nodi rhestr y ceisiadau cynllunio y bu i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

8 Penderfyniadau Apeliadau

CYTUNWYD nodi'r apeliadau cynllunio a oedd wedi dod i law.

9 Apeliadau a dderbyniwyd

CYTUNWYD nodi'r apeliadau cynllunio a oedd wedi dod i law.

10 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor

Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 14 Medi 2022

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____